Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llangennech**

**Cylch Meithrin Llangennech**
**Pafiliwn y Parc**
**Heol yr Orsaf**
**Llangennech**
**SA14 8UB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Llangennech

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Llangennech |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ôl cofrestru yw'r arolygiad hwn. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yng Nghylch Meithrin Llangennech yn fawr iawn, gan fod ganddynt lais cadarn ac maent yn ddysgwyr chwilfrydig. Gallant wneud dewisiadau am yr hyn yr hoffent ei wneud a sut yr hoffent dreulio eu hamser yn y lleoliad. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol yn seiliedig ar chwarae.

Mae'r staff yn hyrwyddo llesiant y plant yn effeithlon, yn meithrin cydberthnasau hoffus â nhw ac yn sicrhau bod y trefniadau diogelu yn sail i'r ymarfer.

Maent yn gymwys, yn brofiadol ac yn wybodus iawn; mae'r staff yn cynnig lleoliad magwrus a gofalgar mewn modd hyderus. Mae'r staff yn dangos angerdd a mwynhad gwirioneddol yn eu rolau.

Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn amgylchedd sy'n groesawgar ac yn gyfeillgar ac yn darparu amgylchedd da i'r plant chwarae a dysgu. Mae amrywiaeth o lefydd chwarae a digon o adnoddau er mwyn annog y plant i chwarae a dysgu. Mae'r adnoddau a'r cyfarpar yn diwallu anghenion y plant yn dda. Mae'r staff yn nodi unrhyw risgiau diangen i'r plant ac yn eu dileu gymaint â phosibl. Mae'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig ardaloedd chwarae fel estyniad i'r amgylchedd dan do.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal gwasanaeth effeithiol a threfnus iawn. Mae ganddynt weledigaeth ragorol ac ymdeimlad o bwrpas sy'n cynnal gwelliannau a gaiff eu rhannu â'r staff, y rhieni, y gofalwyr a'r gymuned leol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwerthfawrogi eu staff, yn darparu cymorth effeithiol ac maent yn herio pawb i wneud eu gorau ac yn gosod disgwyliadau uchel.

Maent yn hyrwyddo cysylltiadau llwyddiannus yn y gymuned ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni, sy'n fodlon iawn ar y gofal y mae eu plant yn ei gael.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn cyfathrebu'n dda ac mae ganddynt lais cryf. Maent yn hyderus wrth wneud eu penderfyniadau eu hunain am beth yr hoffent ei wneud a lle yr hoffent chwarae. Mae'r plant yn ymwybodol o'r gweithgareddau gwahanol sydd ar gael iddynt, er mwyn iddynt allu penderfynu beth yr hoffent ei wneud yn hyderus. Roedd rhai o'r plant yn mwynhau gwneud siapiau a chymeriadau gyda'r toes chwarae tra roedd eraill wedi dewis gwisgo eu doliau. Roedd y plant a ddewisodd chwarae ar eu pen eu hunain ar y mat yn cael eu gadael i chwarae, a'u goruchwylio o bell.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel; maent yn dangos eu bod yn gyffrous ac yn mwynhau eu chwarae yn fawr. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd a gyda'r staff. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus iawn am eu bod yn cael llawer o sylw gan staff sydd wir yn ystyried ac yn parchu eu dymuniadau a'u hanghenion. Mae rhai o'r plant yn chwarae gyda'i gilydd wrth i eraill chwarae'n annibynnol, ac mae rhai o'r lleill yn ymgysylltu ag aelod o'r staff wrth chwarae.

Mae ymddygiad y plant yn dda ac mae'r rhyngweithio rhyngddynt yn gadarnhaol, ar y cyfan. Mae'r plant hŷn yn gwthio'r ffiniau o dro i dro pan fyddant am gael teganau neu adnoddau y mae'r plant eraill yn chwarae â nhw. Maent yn dechrau deall pwysigrwydd rhannu ac aros eu tro. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff; maent yn cydweithredu'n frwdfrydig ac yn gwrando ar eu ceisiadau. Er enghraifft, aeth y plant i olchi eu dwylo ar ôl chwarae yn yr hambwrdd tywod gan ei bod hi'n amser cinio.

Mae'r plant yn ddysgwyr chwilfrydig sy'n ymgymryd â'u chwarae a'u dysgu am gyfnodau estynedig o amser. Maent yn mwynhau'r ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau bywyd go iawn yn fawr iawn; gan archwilio'r adnoddau'n hyderus a defnyddio eu dychymyg. Er enghraifft, roedd plentyn yn mwynhau gwneud cacennau gyda'r toes chwarae wrth sgwrsio â rhywun ar y ffôn symudol a oedd yn ei ddal rhwng ei ysgwydd a'i ên.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau dewis ble yr hoffent eistedd yn ystod amser cinio ac maent yn ceisio gwisgo eu cotiau a'u bagiau eu hunain.

| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| --- | --- |

Mae'r staff yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn gyson ac yn gweithio'n effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn cynnig amrywiaeth o fwydydd iach yn ystod amser byrbryd ac yn annog y plant i archwilio gweadau a blasau gwahanol gan ganmol eu hymdrechion. Maent yn ymateb yn gynnes i ofynion y plant pan fydd eisiau mwy o fwyd arnynt neu os byddant yn gofyn am ddewis arall. Mae gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Maent yn cofnodi presenoldeb y plant yn gywir ac yn llenwi taflenni damweiniau yn brydlon, gan rannu'r wybodaeth â'r rhieni. Mae'r staff yn trefnu arferion glanhau cyson yn effeithiol sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae ganddynt systemau atal a rheoli heintiau priodol ar waith sy'n llwyddo i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf.

Mae'r staff yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant drwy ryngweithio â nhw mewn modd cynnes, gofalgar a hamddenol. Mae'r staff yn rhoi esiampl dda; maent yn gwrando'n astud ar y plant ac yn parchu eu safbwyntiau, gan ddweud wrthynt ar sawl achlysur, "*I'm so proud of you!*" Mae'r staff yn meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â'r plant ac yn rheoli unrhyw anghytundebau yn llwyddiannus. Er enghraifft, gwnaeth aelod o'r staff annog y plant yn dyner i fod yn garedig ac i gydweithio pan roedd dau ohonynt am wneud jig-so ar yr un pryd. Mae'r staff yn rhoi'r polisi rheoli ymddygiad ar waith. Maent yn defnyddio dulliau atgyfnerthu cadarnhaol ac yn rhoi sicrwydd i'r plant a'u canmol yn gyson, fel, "*Well done!*" "*You are so helpful! High five!*" a "*That was so kind of you!*"

Mae'r staff yn creu amgylchedd hamddenol a chyfeillgar yn y lleoliad lle gall y plant chwarae'n hyderus, yn egnïol neu'n dawel. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau pob un o'r plant. Mae'r staff yn uchel eu cymhelliant ac yn cynnig cymorth effeithiol i'r plant wrth iddynt ddysgu. Er enghraifft, yn ystod sesiwn stori, newidiodd aelod o'r staff dôn ei lais yn fedrus er mwyn cyfleu'r cymeriadau, a wnaeth yn ei dro achosi i'r plant ymgolli'n llwyr yn y stori. Mae'r staff yn llawn bywyd ac yn frwdfrydig ac yn gallu defnyddio'r adnoddau i wella dysgu'r plant. Mae gan y staff weithdrefnau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac maent yn hyrwyddo eu dysgu a'u datblygiad. Maent yn cysylltu ag asiantaethau allanol i gefnogi datblygiad iaith y plant ac yn gweithio ochr yn ochr â'r rhieni a'r gofalwyr i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant.

## Yr Amgylchedd Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod bob amser yn cloi'r drysau; mae'r plant, ymwelwyr a'r staff yn llofnodi i mewn ac allan o'r adeilad fel mater o drefn. Maent yn cwblhau asesiadau risg manwl ar gyfer pob agwedd ar yr amgylchedd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn goruchwylio'r plant yn dda. Maent yn deall y gwahaniaeth rhwng risgiau derbyniol ac annerbyniol ar gyfer oedrannau, anghenion a galluoedd y plant maent yn gofalu amdanynt. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn cadw cofnodion manwl ohonynt er mwyn sicrhau y gall pob aelod o'r staff a phob plentyn adael yr adeilad mewn argyfwng. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r safle ac mae'r holl wiriadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad a'r cyfarpar yn gyfredol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael; ac yn darparu mannau dysgu i'r plant eu harchwilio yn ogystal ag ardaloedd iddynt orffwys a chael amser tawel. Mae'r ardal awyr agored wedi'i hamgáu'n llawn, ac mae'r plant yn defnyddio'r ardal hon drwy gydol eu hamser yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gofalu am y plant mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu galluogi i fod yn greadigol ac i archwilio'n hyderus ac yn annibynnol. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau chwarae yn yr ardal tywod a dŵr yn yr heulfan yn fawr gan wneud ffyrdd a thraciau gyda'r ceir a'r teganau cloddio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn creu amgylchedd chwarae ysgogol i'r plant gan gynnig digon o adnoddau i ddatblygu eu chwilfrydedd a’u diddordebau. Maent yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau a chyfarpar ar gael i'r plant yn hwylus i'w hysgogi ac i ennyn eu diddordeb. Er enghraifft, mae adnoddau synhwyraidd ar gael i'r babanod iau, cyfres o lyfrau straeon Cymraeg a Saesneg, ardal chwarae byd bach ac ardaloedd crefft. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y dodrefn a'r adnoddau yn addas ar gyfer anghenion datblygiadol pob plentyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth arloesol ac maent yn cyfleu'r weledigaeth honno'n effeithiol i'w staff, gan greu ethos cadarnhaol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y lleoliad. Mae pob un ohonynt yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd fel tîm ac yn canmol ei gilydd yn fawr. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru sy'n adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth ac yn galluogi'r rhieni i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch anfon eu plant i'r lleoliad. Maent yn cadw cofnodion rhagorol mewn perthynas â chontractau a dewisiadau'r plant ac mae ganddynt yr holl ganiatadau priodol gan y rhieni ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cydnabod pwysigrwydd hunanwerthuso a chynllunio'n effeithiol er mwyn gwella. Maent yn rhoi system effeithiol ar waith sy'n llywio eu hadolygiad o ansawdd y gofal. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cael adborth gan y plant, eu rhieni, y staff, asiantaethau allanol a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn llywio eu hadroddiad. Maent yn rhoi cynllun gweithredu pwrpasol ar waith er mwyn gwella eu hymarfer a'r gwasanaeth. Mae'n hawdd iawn mynd at y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ac maent yn croesawu unrhyw syniadau neu awgrymiadau i wella'u hymarfer.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi gweithdrefnau recriwtio cadarn ar waith i ddiogelu'r plant ac er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol i ddarparu gofal o safon uchel. Mae ganddynt systemau rhagorol ar waith i ddiweddaru gwiriadau mewn modd amserol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant, maent yn gosod disgwyliadau uchel ac yn ysbrydoli ac arwain yn staff yn dda. Maent yn cefnogi'r staff yn effeithiol drwy gynnal arfarniadau a sesiynau goruchwylio ystyrlon yn rheolaidd sy'n hanfodol i'w hymarfer. Mae hyn yn golygu bod y staff yn hyderus, yn frwdfrydig ac yn egniol yn eu rolau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio staff yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r cymarebau staffio, ac yn aml yn mynd y tu hwnt i'r cymarebau hyn, ac yn diwallu anghenion unigol y plant yn llawn o ganlyniad i hynny.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau rhagorol â'r rhieni a'r gofalwyr, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill ac asiantaethau allanol. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hyderus i fynd at y staff i gael help a chyngor ac yn cydnabod bod eu plant yn gwneud cynnydd rhagorol o ran eu dysgu a'u datblygiad yn y lleoliad. Maent yn siarad yn gadarnhaol iawn am y staff a'r arweinwyr. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn meithrin cydberthnasau ystyrlon iawn yn y gymuned drwy ymweld â chartref gofal lleol, cynnal digwyddiadau codi arian a digwyddiadau yn y gymuned lle caiff aelodau estynedig o'r teuluoedd wahoddiad ar eu cyfer.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/07/2024